

Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth
Cymru 2017-18

9^{fed} Tachwedd 2016



WLGA • CLILC

Crynodeb

1. Partner allweddol i Lywodraeth Cymru yw llywodraeth leol wrth iddi gyflawni ei chanlyniadau cymdeithasol ac economaidd eang. Yn dilyn cyhoeddi'r rhaglen Lywodraethu, mae'n amlwg mai ychydig yw'r meysydd lle na fydd cynghorau yn gwneud cyfraniad hollbwysig i ganlyniadau cenedlaethol. Bydd gwasanaethau lleol yn cefnogi pobl iach wrth iddyn nhw fyw bywydau cynhyrchiol mewn economïau ffyniannus ac arloesol. Gwasanaethau lleol yw conglofaen cymunedau mwy diogel, mwy cydlynus a mwy cyfartal. Bydd gwasanaethau lleol yn gwneud cyfraniad hynod werthfawr i amgylchedd sy'n wydn ac i gymdeithas sy'n deall ei phriod ddiwylliant a threftadaeth.
2. Mae'r cynghorau wedi gorfod wynebu'r cyni cyllidebol ac mae cyhoeddi adroddiad diweddaraf y Sefydliad Astudiaethau Cyllid¹ am Gyllideb Llywodraeth Cymru yn dangos mai gwasanaethau lleol yw'r rhai mwyaf agored i doriadau. Mae cyni estynedig yn peryglu gwasanaethau lleol, a phriod amcanion y llywodraeth yn fawr, a hynny yn y presennol a'r dyfodol fel ei gilydd.
3. Mae twf pwysau ariannol nad oes modd eu hosgoi megis y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Ardoll Brentisiaethau ar y cyd â gofynion demograffig a thoriadau ariannol yn golygu bod gwasanaethau lleol dewisol llai yn crebachu.
4. Mae Adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor² blaenorol yn canolbwyntio ar gamau atal a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswyddau ar y sector cyhoeddus i gyd i ddangos sut maen nhw wedi rhoi dulliau hirdymor, ataliol, integredig a chydweithredol ar waith wrth gyflawni'r saith nod cenedlaethol o ran llesiant. Fel a nodwyd gennym yn ein tystiolaeth y llynedd, mae hyn yn newid sylweddol a fydd yn rhoi datblygu cynaliadwy ac anghenion cenedlaethau'r dyfodol wrth galon cyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae angen i holl fframwaith cynllunio ariannol, gan gynnwys gosod cyllideb, adlewyrchu hynny.

¹ [Cyfnewidiadau Cyllidebol Cymreig hyd 2019-20, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid 2016.](#)

² [Pedwerydd Adroddiad Etifeddiaeth y Cynulliad, Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol 2016](#)

(1) Yn eich barn chi, beth yw effaith cyllideb 2016-17 Llywodraeth Cymru?

5. Y lleihad ar gyfartaledd yn dilyn y setliad ar gyfer llywodraeth leol oedd 1.3% ac nid oedd mor anodd â phrofiad y 2 flynedd cyn hynny. Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i'n gwaith lobio ar gyfer trefniant llawr ar gyfer yr awduroddau hynny sy'n dioddef gostyngiadau eithafol, ac fe gefnogwyd hyn gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol yn ei adroddiad ar Gyllideb 2016-17³. Yn y Rhaglen Lywodraethu⁴ mae ymrwymiad ffurfiol i ddarparu cyllid fel y bydd llawr ar gyfer setliadau llywodraeth leol yn y dyfodol.
6. Er bod y diffyg ymagwedd clir a chyson gan Lywodraeth Cymru o ran Cynllunio Tymor Canolig yn parhau i danseilio cynlluniau awdurdodau lleol, mae'r effaith gronnol ar wasanaethau llywodraeth leol ers dechrau'r cyni wedi bod yn eithafol. Y datganiad 2015-16 oedd y drydedd flwyddyn o'r bron i'r setliad dangosol cyhoeddedig gael ei wyro'n sylweddol tuag at i lawr. Mae'r Archwilydd Cyffredinol⁵ wedi cyfrif y bydd lleihad go iawn o £761 miliwn (17%) yn y cyllid allanol agrededig (y grant craidd) rhwng 2010-11 a 2016-17.
7. Pwysleisiodd Maniffesto⁶ CIPFA a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn 2015 fod cynllunio ariannol cadarn yn parhau'n destun pryder ar draws y sector gyhoeddus yn y DU. Ein prif bryder o hyd yw'r anallu i ddibynnu ar unrhyw ffigyrau tra'n ceisio cyflwyno gostyngiadau sylweddol mewn cyllid mewn ffordd drefnus a rhesymegol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu byd llywodraeth leol i gynllunio yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a chyda digon o amser wrth gefn. Yn Lloegr maen nhw'n gweithredu system o setliadau dros nifer o flynyddoedd sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth leol gyflwyno cynlluniau effeithlonrwydd.⁷
8. Nid oes dwywaith nad yw gwasanaethau cyhoeddus lleol yn parhau i ddwyn baich cyni yng Nghymru. Er bod gwariant yn gyffredinol wedi cyrraedd lefel wastad o safbwynt arian, mae'r effaith ar wasanaethau dewisol neu ar y rhai nad ydynt wedi'u diogelu yn eithafol.
9. Mae Ffigur 1 isod yn dangos bod y gwasanaethau hynny sy'n hanfodol i dwf economaidd ac yn ataliol o ran eu natur wedi derbyn gostyniadau hynod o sylweddol. Mae rhai o'r gostyngiadau mwyaf wedi digwydd mewn meysydd nad ydynt wedi'u diogelu megis Gwasanaethau Cynllunio a Rheoleiddio sy'n chwarae rhan hanfodol mewn meysydd adfywio ac ataliol.

³ [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17, Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol 2016](#)


⁴ [Symud Cymru Ymlaen, Llywodraeth Cymru 2016](#)

⁵ [Cydnherthedd Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16](#)

⁶ [CIPFA Manifesto 2015, Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth 2015](#)

⁷ [Four-year settlements for councils could include more grants, says DCLG, Public Finance September 2016](#)

Ffigwr 1: Gostyngiadau mewn termau real yn y gwariant ar wasanaethau, 2001-02 hyd 2016-17



Ffynhonnell: WLGA, datganiadau alldro referniw a chyfrif referniw

10. Mae llawer o feysydd eraill o fewn gwariant llywodraeth leol wedi crebachu pumed ran o leiaf mewn termau real. Serch hynny, mae'r meysydd a oedd wedi'u diogelu'n gymharol gan gynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau amgylcheddol wedi bod yn crebachu hefyd. Daeth adroddiad yr IFS (a ddyfynnir uchod) a gyhoeddwyd yn ddiweddar i gasgliad tebyg tra bod adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (PPIW) tua diwedd y llynedd wedi dangos bod graddfa'r gostyngiadau mewn rhai gwasanaethau yng Nghymru ar yr un lefel â'r rheini yn Lloegr⁸.

⁸ [Coping with the Cuts: Lessons from English Councils' Responses to Budget Reductions, PPIW 2015](#)

11. Un o brif nodweddion y graffig uchod yw bod yr adnoddau a ddyrennir i'r holl wasanaethau heblaw 6 ohonynt bellach ar lefelau diwedd yr 1990au. Mae'r cynnydd mewn buddsoddiadau a gafwyd ddechrau'r 2000au wedi'i ddileu'n llwyr. Mae'r arbediadau a gafwyd hyd yn hyn wedi dod i law drwy atal cyflogau a gostyngiadau o ran swyddi. Mae arolygon gweithlu wedi dangos bod 15,000 o swyddi wedi'u colli ers 2009-10. Mae hyn yn debygol o barhau hyd nes 2019-20 ar yr un raddfa. Golyga hyn y bydd gweithlu byd llywodraeth leol wedi gostwng 20% i bob pwrpas dros gyfnod o 10 mlynedd. Gellir canfod llawer o'r mentrau i fynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb drwy edrych ar gynlluniau ariannol tymor canolig yr awdurdodau lleol.
12. Ar yr un pryd mae'r perfformiad wedi bod yn gwella. Mae data diweddaraf⁹ byd llywodraeth leol yn dangos sut y perfformiodd y gwasanaethau hynny yn 2015-16 o'i gymharu â 2014-15. Yng Nghymru, mae 65% (26) o'r 40 dangosydd y mae modd eu cymharu rhwng 2014-15 a 2015-16 yn dangos gwelliant. Ar ben hynny, mae'r bwlch mewn perfformiad (rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf) yn parhau i leihau mewn 59% (23) o'r dangosyddion. Yn 41% (16) o'r dangosyddion, gwellhaodd y perfformiad ac aeth y bwlch rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai sy'n perfformio waethaf yn llai. O'r 41 dangosydd perfformiad cenedlaethol yn eu lle ar gyfer 2015-16, roedd modd cymharu 66% (27 dangosydd) ohonynt â rhai 2009-10. O'r 27 dangosydd cymaradwy, roedd 67% ohonynt (18 dangosydd) wedi gwella.

(2) Pa ddisgwyliadau sydd gennych o gynigion y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18?

13. Mae arweinwyr WLGA yn parhau i bwysleisio natur ataliol gwasanaethau lleol, yn enwedig gwasanaethau cymdeithasol. Anfonwyd y llythyr yn yr atodiad gan Lefarydd Cyllid a Llefarydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol WLGA gan nodi'n glir y pwysau go sylweddol y bydd awdurdodau lleol yn eu profi yn ystod yr ychydig o flynyddoedd nesaf, nid yn ystod 2017-18 yn unig.
14. Mae hyn yn deillio o'r cynnydd yn y galw am wasanaethau cyhoeddus lleol a'r cynnydd yn y gost o'u darparu. At ei gilydd, bydd pwysau yn sgil galwadau o'r math yma yn rhai demograffig ac maen nhw ar eu mwyaf difrifol yn y meysydd cyllideb mwy eu maint sef y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Dangosodd y gwaith a wnaed ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (WPS) 2025¹⁰ fod pwysau yng nghyllidebau'r gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifol am tua 2.9% o dwf bob blwyddyn, sef tua £43m yn flynyddol tan 2019-20. Mae hyn yn cynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â'r henoed. Ym maes gofal

⁹ [Perfformiad Awdurdodau Lleol 2015-16, Uned Ddata Cymru 2016](#)


¹⁰ [Future Pressures on Welsh Public Services, WPS 2025 2014](#)

cymdeithasol i oedolion, daeth adroddiad wrth LE Cymru¹¹ a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i ffigwr tebyg.

15. O fewn cyllidebau addysg, mae cynnydd yng nghyfradd y genedigaethau yn dechrau arwain at dwf yn nifer y disgyblion. Rhwng 2015 a 2019, bydd cymhareb twf plant oedran ysgol o'i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol yn cynyddu deirgwaith bron o 0.8 i 2.3. Bydd y pwysau blynyddol sy'n deillio yn cynyddu o £9m yn 2016-17 i £24m yn 2019-20.
16. Fodd bynnag, mae pwysau cost nad oes modd eu hosgoi yn troi fwyfwy yn rhan o gyfanswm y pwysau ac maen nhw'n cael eu teimlo ar draws pob maes gwasanaeth, yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Llynedd, disgwyliwyd i'r awdurdodau lleol lyncu gwaelodlin ychwanegol o £60m yn dilyn colli ad-daliad yr Yswiriant Gwladol o ganlyniad i gyflwyno Pensiynau Un Haen. Mae cyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn golygu y bydd y lefel yma o bwysau nad oes modd eu hosgoi yr un peth bob blwyddyn rhwng 2017-18 hyd 2019-20 fel yr oedd yn 2016-17. Ar ben y pwysau hyn o £60m yn 2017-18 daw pwysau o £18m yn dilyn cyflwyno'r Ardoll Brentisiaeth a £42m arall oherwydd cyflogau ac effaith ailwerthuso'r pensiynau bob tair blynedd.
17. O beidio ag ariannu'r costau hyn yn y gweithlu nad oes modd eu hosgoi, golyga y byddai rhaid gwneud cwtogi gwasanaethau lleol er mwyn eu hariannu. Mae Ffigwr 2 isod yn dangos bod costau'r gweithlu yn gyfystyr â 46% o'r pwysau cronol erbyn 2019-20. O gymryd chwyddiant i ystyriaeth ar ben hynny, dengys y ffigwr isod mai £192m yw'r cynnydd yn y pwysau rhwng 2016-17 a 2017-18 a £172m yn 2018-19 a £178m yn 2019-20. Y pwysau cronol erbyn 2019-20 yw £750m sef tua £150m yn uwch nag amcangyfrif y llynedd ac mae hyn i'w briodoli i'r effaith ar y cyd rhwng y Cyflog Byw Cenedlaethol, yr Ardoll Brentisiaethau a chyfraniadau ychwanegol i bensynau.
18. Ffordd arall o edrych ar y pwysau hyn yw eu seilio ar wasanaethau ac elfennau eraill yn y gyllideb yn gyffredinol. Mae Ffigwr 3 yn dangos dadansoddiad o'r pwysau yn y modd yma. Mae modd priodoli mwy na 80% o'r pwysau i'r gwasanaethau mwyaf sef y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, a bydd y ganran yma'n parhau'n gyson tan 2019-20.

¹¹ [Future of Paying for Social Care in Wales, LE Wales 2015](#)


Ffigwr 2: Effaith gronol y pwysau tan 2019-20, £m



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Sylfaen: datganiadau alldro reffeniw a chyfrif reffeniw (2014-15 hyd 2015-16), effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol: Arolwg WLGA (2016)

19. Er bod Treth y Cyngor yn parhau'n ffynhonnell incwm bwysig i'r awdurdodau lleol, bydd cynnydd yn y dreth yn y dyfodol ymhell o fod yn ddigon i ariannu'r pwysau a nodir uchod. O gymryd y bydd y cyllid yn parhau'n wastad o safbwynt arian, byddai rhaid i dreth y cyngor gynyddu bron 15% bob blwyddyn hyd 2019-20.

Ffigwr 3: Effaith gronol y pwysau hyd 2019-20, fesul cyllideb, £m



Source: Ffynhonnell: Amcangyfrifon Sylfaen: datganiadau alldro reffeniw a chyfrif reffeniw (2014-15 hyd 2015-16), effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol: Arolwg WLGA (2016)

(3) Pa mor barod yn ariannol yw eich sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18, a pha mor gadarn yw eich gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod?


20. Yn ei adroddiad diweddaraf ar wytnwch ariannol yr awdurdodau lleol¹², cydnabu'r Archwilydd Cyffredinol fod 'yr awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond maen nhw'n ei chael yn anodd datblygu a chyflawni'r arbediadau a'r newidiadau yn y gwasanaethau ar y cyflymder y gofynnir iddyn nhw ei wneud er mwyn sicrhau gwytnwch ariannol yn y dyfodol.' Yn amlwg mae gwaith i'w gyflawni o hyd.
21. Er y gall yr awdurdodau lleol wneud amcangyfrifol cadarn o'r pwysau yn y dyfodol o ran gwariant, mae ceisio rhagweld graddfa gostyngiadau cyllido yn y dyfodol wedi mynd yn fath o ymchwil am y Seint Greal. Yn hynny o beth, nid yw ffordd Llywodraeth Cymru o osod ei chyllidebau ei hun yn helpu.
22. Mae Llywodraeth Cymru wedi cilio o ymagwedd tymor canolig cadarn a oedd ganddi pan gychwynnodd Cylch Gwariant 2010. Mae'r cylch cyllidebol wedi dychwelyd i ddull cronol ar y cyd â thynnu nôl yn llwyr oddi wrth system y setliadau amlfwyddyn ar gyfer byd llywodraeth leol a oedd wedi'i datblygu mor bell nôl â 2007. Fodd bynnag, rydym yn deall bod y sefyllfa ansicr yn dilyn Brexit yn peri y bydd cynllunio ar gyfer eleni yn un o'r rhai anhawsaf erioed ond wrth i'r ansicrwydd gilio mae angen go iawn inni ddychwelyd i fframwaith cynllunio ariannol cywir.
23. Un canllaw at y dyfodol yw'r wybodaeth a gyhoeddir gan y Swyddfa er Cyfrifoldeb Cyllidebol. Adeg y Gyllideb ym mis Mawrth 2016 cyhoeddodd ei rhagolygon ei hun ar gyfer cyllid a gwariant llywodraeth leol hyd 2021¹³. Mae'r ffigyrau cyhoeddedig yn y tablau atodol yn dangos bod sawl cynnydd yng nghrantiau llywodraeth ganol i'r awdurdodau lleol rhwng 2015-16 a 2020-21 yn debygol o godi 8% yng Nghymru neu 1.5% yn flynyddol.
24. Fodd bynnag, nid yw dogfennaeth yr Adolygiad o Wariant yn darparu amcangyfrifon ar gyfer Nenfwd Gwariant Adrannol Adnoddau Bloc Cymru (RDEL). Ar y cyd â rhagdybiaethau parthed twf mewn cyfraddau busnes, gall yr amcangyfrifon hyn helpu wrth fodelu nifer o sefyllfaoedd¹⁴ yn achos Cyllideb Llywodraeth Cymru a'r effaith ar grant craidd llywodraeth leol yn ystod y blynyddoedd sy'n weddill yn yr Adolygiad o Wariant.

¹² [Gwytnwch Ariannol Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2015-16, Swyddfa Archwilio Cymru 2016](#)

¹³ [Tabl 2.29 yn Nhablau Cyllidol Atodol y Rhagolygon Economaidd a Chyllidol](#), OBR, 2016

¹⁴ Yn seiliedig ar y modelu a wnaed gerbron Cymdeithas Trysoryddion Cymru ym mis Ionawr 2016 a'r diweddariad i adlewyrchu canlyniad Cyllideb mis Mawrth.

Ffigwr 4: Newidiadau wedi'u modelu yn y Cyllid Allanol Cyfun (AEF) hyd 2019-20, yn ôl 3 senario



Ffynhonnell: WLGA

25. O dan yr amgylchiadau mwyaf optimistig ceir diogelwch gwan ar gyfer Cyllidebau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Leol. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn derbyn rhagor o gyllid yn dilyn y cynnydd yng nghyllid y GIG yn Lloegr yn ystod hyd y Senedd. Bydd arian yr holl gyllidebau eraill yn cael eu cynnal ar yr un lefel, gan ganiatáu i'r cyllid allanol cyfun (AEF) gynyddu 1.6% yn 2017-18, 1.8% yn 2018-19 a 2019-20. Yn fras, mae'r senario yma yn cyfateb i ragolwg y Swyddfa er Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR).
26. Senario llai ffafriol yw rhagdybio y bydd diogelwch 'canolig' ar gyfer Cyllidebau nad ydynt yn rhai Llywodraeth Leol. Felly, bydd y GIG yn derbyn rhagor o daliadau chwyddo hael yn seiliedig ar chwyddiant cyffredinol (cynnyrch domestig gros) yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant. Bydd arian yr holl gyllidebau eraill yn cael eu cynnal ar yr un lefel, gan ganiatáu i'r cyllid allanol cyfun (AEF) leihau 0.2% yn 2017-18, 0.2% yn 2018-19 a 0.4% yn 2019-20.
27. Gellid dychmygu senario mwy pesimistaidd o lawer lle, fel yr uchod, byddai'r GIG yn cael ei ddiogelu mewn perthynas â chwyddiant, a byddai'r holl gyllidebau nad ydynt yn rhai llywodraeth leol hefyd yn cael eu diogelu. Byddai'r cyllid allanol cyfun (AEF) yn lleihau 0.6% yn 2017-18, 2.6% yn 2018-19 a 1.8% yn 2019-20.
28. All yr un o'r senarios hyn gymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol y bydd angen ar Weinidogion Llywodraeth Cymru i ariannu'r Rhaglen Lywodraethu. Mae nifer o eitemau hynod o fawr yn rhan o hyn ond wrth i'r adroddiad yma gael ei lunio, nid yw'n hysbys faint bydd y rhaglen yn ei gostio.

29. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol hefyd bod WLGA a'r CIPFA wedi ymuno'n ddiweddar i benodi Comisiwn Annibynnol i edrych ar ddyfodol Cyllid Llywodraeth Leol¹⁵ yng Nghymru sy'n cael ei gadeirio gan yr Athro Tony Travers. Ni roddwyd y dasg i'r Comisiwn werthuso materion penodol megis y fformwla cyllido ond yn hytrach edrychodd yn ehangach ar y system ac hefyd ar y cwestiwn a fyddai modd cael cymhellion gwell ym maes cyllido, neu'n wir ei wneud yn fwy lleol. Mae angen cydbwysedd rhwng system sy'n cymell yn well ac un sy'n cyfartalu yn llwyr ac yn adlewyrchu angen. Ym maniffesto WLGA¹⁶, rydym yn pledio achos dros ragor o leoleiddio a'r gyriant ar gyfer hyn fyddai rhagor o ddatganoli cyllidol. Rhoddir crynodeb o argymhellion Comisiwn yr Athro Travers yn Atodiad I.


(4) Meysydd penodol wrth graffu'r gyllideb

Dull gwariant ataliol a sut mae hyn yn cael ei gynrychioli wrth ddyrannu adnoddau

30. Mae WLGA yn cytuno â'r argymhellion parthed atal yn yr Adroddiad Etifeddiaeth. Nid yw'r term wedi'i ddiffinio'n dda ac nid oes ganddo lawer o ddylanwad chwaith wrth ddyrannu adnoddau. Yn Ffigur 1 mae'n amlwg, yn achos yr awdurdodau lleol, bod meysydd gwariant ataliol yn gyfystyr â meysydd gwariant nad ydynt yn destun diogelwch ac felly yn derbyn y gostyniadau mwyaf.
31. Ceir peth tystiolaeth bod rhywbeth tebyg yn digwydd o fewn cyllidebau iechyd. Mae dadansoddiad o Gyllidebau Rhaglenni'r GIG a gasglwyd yn ganolog yn dangos bod llawer o feysydd gwariant sy'n ataliol o ran eu natur yn destun gostyniadau sylweddol ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant. Fodd bynnag, nid yw cyllid Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei gynnwys yma gan nad oedd y sefydliad yn bodoli yn 2009-10.

¹⁵ [Uchelgais ar gyfer Newid: Anelu'n Uwch, Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru 2016](#)

¹⁶ [Atebolrwydd Lleol 2016-21: Cynllun ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, WLGA 2016](#)

Ffigwr 5: Gwariant termau real ym meysydd rhaglenni'r GIG, 2009-10 hyd 2014-

Ffynhonnell: StatsCymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi (Datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros)

Polisiâu Llywodraeth Cymru i leihau tlodi, lleddfu diwygiadau lles a pharatoi ar gyfer poblogaeth sy'n mynd yn hŷn

32. Rydym wedi gwneud cyflwyniad i'r Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau am ei raglen waith yn y dyfodol a dylai'r cyflwyniad hwnnw gael ei ddarllen ar y cyd â'r adroddiad yma.

Trefniadau ariannol y byrddau iechyd lleol

33. Gellir gweld ein sylwadau am y Rhyngwyneb GIG-Gofal Cymdeithasol ym mharagraffau 53 hyd 55 isod.

Paratoi ar gyfer ymadawriad y DU â'r UE

34. Mae amseriad ac effaith debygol ymadawriad y DU â'r UE yn ansicr. O dan Erthygl 50 mae'n rhaid negodi cytundeb ynghylch ymadael. Bydd gofynion yr UE yn peidio â bod yn gymwys o'r dyddiad y daw y cytundeb i rym neu, yn absenoldeb hynny, ddwy flynedd wedi i'r DU roi gwybod am ei bwriad i ymadael. Mae adroddiad diweddar yr IFS yn esbonio'r effaith yn unol â dwy elfen wahanol: yr effaith fecanyddol a'r effaith ar yr incwm cenedlaethol.
35. O ran yr effeithiau mecanyddol, mae'n rhaid i'r cytundeb ynghylch ymadael fynd i'r afael â dileu yn raddol raglenni ariannol yr UE. Hyd nes y bydd y trafodaethau hynny wedi digwydd, nid yw'n glir a fydd unrhyw gymorth ariannol yr UE yn parhau wedi'r ymadael (e.e. hyd ddiwedd y rhaglenni cyfredol yn 2020) a/neu'r graddau y bydd unrhyw ddiffyg yn destun digolledu drwy gyllid domestig. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwarantu y bydd cymorth ariannol y Trysorlys ar gael ar gyfer prosiectau Strwythurol a Buddsoddi'r UE cyn Datganiad yr Hydref eleni yn ogystal ag unrhyw brosiectau Horizon (Ymchwil a Datblygu) a arwyddir cyn y bydd y DU yn ymadael â'r UE. O ran cyllideb 2016/17 mae'n debyg y bydd yr effaith yn gyfyngedig ac mae'r rhan fwyaf o'r ansicrwydd yn ymwneud â rhan olaf y rhaglen bresennol hyd 2020 a thu hwnt.
36. Fodd bynnag, ceir pwysau i gytuno ar gynifer o brosiectau â phosibl cyn gynted â phosibl a bydd angen rhoi arian cyfatebol yn ei le ar gyfer yr holl brosiectau a gymeradwyir. Hwyrach bydd hyn yn golygu y bydd gwariant y proffiliau o ran prosiectau Ewropeaidd yn rhai o natur fwy 'dechrau dwys' na'r hyn y byddai wedi digwydd fel arall. Ar y llaw arall, mae'r ansicrwydd am gyllid yn ystod y blynyddoedd olaf yn destun ansicrwydd a/neu mae rhai prosiectau yn ei chael yn anodd recriwtio/cadw safon y staff sydd ei hangen fel y gellir rhoi'r prosiectau ar waith yn llwyddiannus.
37. Mae effaith yr incwm cenedlaethol yn fwy dwfn yn y tymor canolig i hir ac mae cyllid cyhoeddus yn sensitif i incwm cenedlaethol. Os bydd yr incwm cenedlaethol yn gostwng mwy na 0.6%, yn ôl amcangyfrifiad gan yr IFS, yna byddai hyn yn drech nag effaith gadarnhaol yr £8bn y mae'r DU yn ei gyfrannu ar hyn o bryd i'r UE. Mae'r IFS yn rhybuddio y bydd y rhagolygon canolig i hir ar gyfer yr economi yn parhau i fod yn aneglur. Yn y tymor byrrach mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd yn fwriad ganddi gyrraedd gwarged erbyn 2019-20 a hwyrach y byddai hyn yn ysgafnhau'r cyni fymryn ond byddai'n golygu y byddai'n parhau'n ddi-os tan yr 2020au cynnar.

Cyllidebau carbon isel a pharatoi ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol

38. Mae cyllidebau carbon yn cael eu cyflwyno yn dilyn Deddf yr Amgylchedd. Mae'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr ystyr bod yr olaf yma yn gofyn am safbwynt sy'n cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â bod yn ddiabyddol ar danwydd sy'n seiliedig ar garbon. Mae'r risgiau hyn yn gysylltiedig â'r effaith ar iechyd, newid yn yr hinsawdd yn y tymor hir a diogelwch ynni yn y dyfodol. Mae cyllidebau carbon yn offeryn monitro sy'n bwriadu gofalu y bydd cynnydd rheolaidd tuag at dargedau lleihau allyriadau yn y tymor hir (80% erbyn 2050) o'u cymharu â'r lefelau yn 1990 ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, o dan Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008.
39. Er eu bod yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd, gall y gweinyddiaethau datganoledig gyflwyno eu polisiau eu hun o ran newid yn yr hinsawdd a dyna sy'n cael ei wneud yn Neddf yr Amgylchedd hyd 2050. Gosodir targedau cyfamser ar gyfer 2020, 2030 a 2040. Cyfnodau'r cyllidebau yw 2016 hyd 2020, ac yna pob cyfnod dilynol o bum mlynedd, gan orffen gyda 2046 hyd 2050. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod y targedau ar gyfer y ddau gyfnod cyntaf erbyn diwedd 2018. Rhaid pennu cyllidebau'r trydydd cyfnod a'r rhai diweddarach o leiaf pum mlynedd cyn dechrau'r cyfnod dan sylw
40. Gan mai 2016-17 a 2017-18 yw dwy flynedd gyntaf y gyllideb garbon gyntaf, mae cynnydd yr awdurdodau lleol ym mhob un o'r blynyddoedd hyn yn berthnasol. Dyma yw'r sefyllfa hyd yn oed os na fydd y targed cyntaf yn hysbys tan ddiwedd 2018. Yn fwy na hynny, ni fydd rhaid creu'r datganiad cyntaf o gynnydd tan tua dwy flynedd ar ôl y flwyddyn darged gyfamser (h.y. 2022). Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar awdurdodau lleol sy'n rheoli'r portfolio eiddo mwyaf yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac ar bartneriaid eraill i gydymffurfio â thargedau lleihau carbon Cymru. Mae'n gwneud synnwyr i'r awdurdodau gymryd camau i leihau eu hallyriadau carbon p'run bynnag. Byddai'n syndod o beth pe na bai'n amcan yn eu Cynlluniau Llesiant a hwyrach y bydd arbediadau cost – neu hyd yn oed incwm – yn dilyn mesurau effeithlonrwydd ynni ac enillion yn dilyn buddosddi mewn technolegau ynni adnewyddadwy. Yn aml bydd angen cryn fuddsoddi cyfalaf ar gamau o'r fath.
41. Ar hyn o bryd mae Twf Gwyrdd Cymru Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth ariannol i'r awdurdodau ac mae hynny yn cynnwys cyngor a chefnogaeth o dan y rhaglen RE:FIT (trefniant contraction rhaglenni ynni) a chyflwyno ynni adnewyddadwy. Bydd parhau i gefnogi'n hanfodol er mwyn cadw'r cynnydd. Ceir y posibilrwydd o ehangu cefnogaeth o'r fath i gynnwys trafndiaeth a fydd yn gorfod gwneud mwy o gyfraniad yn ystod y blynyddoedd nesaf er mwyn cydymffurfio â'r amcanion lleihau carbon yn gyffredinol. Gallai cynlluniau megis y Metro – o'u seilio ar drydanu gan ddefnyddio ffynonellau adnewyddadwy – wneud cyfraniad sylweddol, fel hefyd yn achos cefnogaeth i seilwaith ar gyfer cerbydau trydan a/neu hydrogen.

Paratoi ar gyfer effaith rhagor o ddatganoli o fewn Bil Cymru

42. Cydnabu'r Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol a gadeiriwyd gan yr Athro Travers ei bod yn bosibl erbyn 2021 y gallai bron traean o wariant cyhoeddus yng Nghymru gael ei ariannu drwy drethi a godir yng Nghymru. Un o'i argymhellion oedd, wrth i Lywodraeth Cymru gael rhagor o ddatganoli cyllidol, y dylai hyn lifo drwodd i'r lefel leol.
43. Ein dadl yw bod y math yma o 'ddatganoli dwbl' yn berthnasol mewn ffordd ymarferol na'r hyn a wna mewn ffordd gyllidol. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried llywodraeth leol i gasglu a chadw trethi datganoledig (neu, fel y casglodd Travers, y Dinas-Ranbarthau hefyd) ond dylid eu hystyried hefyd i gyflawni gwasanaethau datganoledig newydd lle y bo'n briodol gwneud hynny ar lefel leol (neu ranbarthol).
44. Un o'r materion rydyn ni wedi'u pwysleisio yn ein Maniffesto yw creu Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol annibynnol sy'n atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Gallai hon graffu'n annibynnol ar ragolygon Llywodraeth Cymru ynghylch derbyniadau a phenderfynyddion economaidd sy'n deillio o drethi a ddatganolir i Gymru yn ogystal â rhagolygon economaidd a chyllidol ehangach. Erbyn Mawrth 2016 cytunodd Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth yr Alban ar Ddeddf yr Alban 2016 a'r Fframwaith Cyllidol cysylltiedig.

Effaith rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru ac a oes digon o adnoddau i'w rhoi ar waith

45. Cymysg yw ein profiad o ddeddfwriaeth newydd a'r asesiadau effaith cysylltiedig. Os bydd ymgysylltu da a chynnar gyda llywodraeth leol, yn gyffredinol bydd canlyniadau da o ran rhoi rhaglenni ar waith. Enghraifft dda o hyn oedd y Bil Tai lle mae Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi gweithio gyda'i gilydd ar ddeddfwriaeth hynod o arloesol.
46. O ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (SSW), roedd WLGA yn gefnogol iawn ond cafodd y costau eu tanchwarae a'r manteisio eu gorwerthu. Roedd union natur y ddeddfwriaeth alluogol hon yn golygu ei bod yn anodd i'w dadansoddi gydag unrhyw fanwl gywirdeb a daeth hyn i'r golwg wrth gomisiynu'r Institute of Public Care¹⁷ i ddadansoddi goblygiadau Bil yr SSW ar y cyd â Chonffederasiwn y GIG a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

¹⁷[Transitional and longer-term implications of the Social Services and Well-being \(Wales\) Bill 2013, Institute of Public Care 2013](#)

47. Cafodd Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ei werthuso'n fwy trwyadl gan Swyddfa Archwilio Cymru¹⁸. Codwyd pwynt pwysig am gostau cyfle lle mae'n rhaid llyncu costau. Yn y manau hynny lle mae'n rhaid llyncu costau ac mae gweithgarwch yn symud o rywle arall, roedd y Swyddfa'n feirniadol o asesiad effaith rheoleiddiol y Bil (t.8):

O ran barn Llywodraeth Cymru y gallai fod angen talu costau ychwanegol y Bil gan ddefnyddio adnoddau presennol, fel y dywedwyd yn ystod sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar 29 Medi 2014, mae'r ffaith nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r bwriad hwn yn glir yn wendid yn ein barn ni. Mae talu costau gan ddefnyddio adnoddau presennol yn gost cyfle, yn nhermau'r gweithgarwch arall a gaiff ei hepgor. Dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nodi'n glir y bwriad i dalu costau ychwanegol yn y ffordd hon.

48. Wrth gloi, yr hyn yr hoffem i'w weld yw dychwelyd i'r weithdrefn lle ariannodd Llywodraeth Cymru gostau'r ddeddfwriaeth newydd, sef ailsefydlu cytundeb Essex-Jones. Rydyn ni'n galw am hyn yn ein manifesto.

(5) Roedd y Llywodraeth flaenorol wedi pwysleisio y bydd Cyllideb Ddrafft 2017-18 yn cael ei chyfunioni â'r dangosyddion cenedlaethol i Gymru.

49. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi adroddiad bob blwyddyn ar y cynnydd a wneir yng Nghymru wrth gyflawni'r saith nod o ran llesiant, gan ddefnyddio'r dangosyddion cenedlaethol. Enw'r adroddiad fydd yr Adroddiad Llesiant Blynyddol, a bydd yr un cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn ariannol yn dilyn cyhoeddi'r dangosyddion cenedlaethol, h.y. ym mis Mawrth 2017.
50. Gellir rhagdybio felly y bydd yr adroddiad cyntaf yn gyfeirnod/llinell Sylfaen i wneud penderfyniadau ynghylch gwella a chynnydd. Os bydd y cyllidebau yn cael eu cyfunioni â'r dangosyddion cenedlaethol, ar ba sail felly? A fydd dangosyddion y dangosyddion hynny sy'n gysylltiedig ag Iechyd, Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael eu 'clustnodi'? A fydd pwysolion yn cael eu defnyddio? Pa feini prawf a gaiff eu defnyddio h.y. os bydd diffyg cynnydd o ran un neu ragor o'r nodau, ai'r bwriad fydd 'dargyfeirio' arian i wella'r cynnydd o ran un neu ragor o'r dangosyddion ar draul un arall? Mae'r 7 Nod Llesiant yn gyfartal y naill â'r llall, maen nhw'n gydgyssylltiedig ac mae'r naill yn dibynnu ar y llall, e.e. ni fydd Cymru ffyniannus yn bosibl os yw'r gweithlu'n afiach.
51. Mae gwariant ataliol yn golygu deall gwir achos y broblem ac yna fynd i'r afael â hynny, nid mynd i'r afael â'r symptomau yn unig. Os oes diffyg dealltwriaeth a diffyg bodlonrwydd i fynd i'r afael â gwir achos, dyweder, clefyd y siwgrwr, cyflyrau'r galon, gordewdra yna bydd y gwasanaeth iechyd yn wynebu nifer di-

¹⁸ [Adolygiad o Asesiad Effaith Rheoleiddiol Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\), Swyddfa Archwilio Cymru 2016](#)

ben-draw a chynyddol o'r achosion hyn yn ystod y cenedlaethau i ddod. Yn syml, os na fyddwn yn mynd i'r afael â gwir achosion cyffredin deiet sy'n uchel mewn siwgwr a brasterau, diffyg ymarfer corff, yna bydd y sefyllfa yn gwaethygu AC os byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain ac os bydd cyllid ar gyfer hyn, bydd 'ôl-groniad' o hyd yn achos y sawl sy'n dioddef yr anhwylderau hyn ar hyn o bryd yn gofyn am gyllid hyd nes y bydd y mesurau ataliol wedi cyrraedd eu llawn dwf.

52. Yn ein tystiolaeth i Gomisiwn Williams yn 2012 eiriolasom dros y fframwaith canlyniadau yr oedd Llywodraeth yr Alban wedi'i fabwysiadu yn 2007. Nid ffenomen newydd yw cyllidebu ar sail canlyniadau ac ni fydd yn gwella'r modd y dyrennir adnoddau yn syth. Bydd anawsterau o ran priodoli canlyniadau i gyllidebau dirprwyedig mawr o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru, ond dylai Llywodraeth Cymru arwain wrth ei wneud yn rhan annatod o wasanaethau cyhoeddus, gan gyhoeddi'r math o arweiniad y mae Llywodraeth yr Alban wedi'i gyhoeddi¹⁹.

(6) Pa ymrwymadau a blaenoriaethau yr hoffech eu gweld yng nghyllideb ddrafft 2017-18 er mwyn sicrhau bod cynnydd yn digwydd o ran gwariant ataliol ac, yn benodol, ym maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol?

53. Yng Nghymru, mae cryn gynnydd wedi'i wneud yn sgil gweithio mewn partneriaeth o ran Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ac wrth gyflwyno mentrau megis y gronfa gofal canolraddol (ICF). Mae'r cynnydd yma wedi bod yn sylweddol, ond rydym hefyd wedi gweld y datblygiadau polisi a'r buddsoddi sydd wedi digwydd yn Lloegr sy'n awgrymu agenda uchelgeisiol

54. Er enghraifft, bydd cynigion Manceinion Fwyaf ar gyfer cyllideb iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd yn gweld cyllideb gyfun rhwng y GIG a llywodraeth leol. Bydd yn bwysig i waith y Pwyllgorau fod yn gysylltiedig â'r Adolygiad Seneddol ar ddyfodol tymor hir Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru y rhoddodd y Prif Weinidog wybod amdano, ond credwn y dylai ymchwiliad sy'n edrych ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, a'r gwaith o asesu effaith polisiau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fod yn un o flaenoriaethau'r Pwyllgor.

55. Un o'r prif faterion i'r Llywodraeth newydd yw sut i newid y blaenoriaethau o ysbytai i waith ataliol ac iechyd cyhoeddus. Polisi WLGA yw y dylid gosod yr olaf hwn o fewn byd llywodraeth leol fel sy'n digwydd yn Lloegr. Unwaith eto, mae WLGA wedi teimlo'r rheidrwydd i ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru ar fater ariannu gofal cymdeithasol, a gellir gweld hwn yn Atodiad II. Mae'r cynsail yn syml: os ydym eisiau osgoi'r problemau sy'n wynebu system Iechyd a

¹⁹ [Outcomes-based Approach: Guidance for Scottish Public Bodies, Llywodraeth yr Alban 2011](#)

Gofal Cymdeithasol Lloegr yn gyffredinol yna mae'n rhaid inni ariannu'n llwyr agweddau ar bwysau nad oes modd eu hosgoi, gan ofalu bod gan y cynghorau'r rhyddid i osod costau a ffioedd ar y lefel honno sy'n gweddu'r amgylchiadau lleol orau.

(7) Pa ymrywmiadau a blaenoriaethau yr hoffech eu gweld yng nghyllideb ddrafft 2017-18 er mwyn sicrhau bod cynnydd yn digwydd o ran lleihau tlodi a pharatoi ar gyfer poblogaeth sy'n mynd yn hŷn?

56. Gweler ein cyflwyniadau diweddar i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cydraddoldebau, Llywodraeth Leol a Chymunedau ynghylch eu priod raglenni gwaith.

(8) Ydych chi o'r farn bod y dyraniadau a wnaeth Llywodraeth Cymru yn seiliedig yn ddigonol ar dystiolaeth?

57. Rydym o'r farn ein bod yn ateb y cwestiwn hwn fel rhan o'n sylwadau ar wariant ataliol, safon y dystiolaeth mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a'r cyllid ar gyfer beichiau neu gyfrifoldebau newydd.

(9) Pa newidiadau yn y dyraniadau a'r blaenoriaethau yr ydych chi o'r farn bod angen eu hadlewyrchu yng nghyllideb ddrafft 2017-18 a'r blynyddoedd dilynol o ganlyniad i'r bleidlais i ymadael â'r UE?

58. Pan roddir terfyn ar gyllid yr UE disgwylir y bydd Llywodraeth y DU, yn dilyn addewidion a wnaed cyn y refferendwm, yn rhoi cyllid 'amgen'. Mae'n bwysig bod y cyfle yn cael ei gymryd i adolygu rhaglenni cymorth ariannol cyfredol ac i ystyried a ellir rhoi polisi rhanbarthol mwy priodol yn ei le fydd wedi'i deilwra i anghenion Cymru. Er enghraifft, lluniwyd ardal ddaearyddol 'Gorllewin Cymru a'r Cymoedd' gyda chyllid yr UE mewn cof – ai dyma'r cyfluniad gorau i gefnogi datblygu economaidd ledled Cymru? Mae lefelau ariannu hefyd wedi'u pwysoli tuag at y rhanbarth hwnnw yn hytrach na 'Dwyrain Cymru'.

59. Er bod hyn yn adlewyrchu lefel yr angen ni fydd bob amser yn adlewyrchu 'daearyddiaeth cyfle'. Gan fod patrymau teithio i'r gwaith yn croesi ffiniau Gorllewin Cymru a'r Cymoedd/Dwyrain Cymru yn aml hwyrach y byddai dull mwy strategol yn arwain at ganlyniadau gwell. Dylai unrhyw bolisi rhanbarthol o'r fath gymryd i ystyriaeth y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud ar y lefel ranbarthol drwy'r Fargen Ddinesig, Dinas-Ranbarthau, Bargeinion Twf ac ati.

60. Yn ei maniffesto, galwodd WLGA am ddyletswydd datblygu economaidd statudol i'r awdurdodau lleol a fyddai'n derbyn adnoddau digonol ac yn gallu cael ei rhoi ar waith ar lefel ranbarthol ar y cyd â chefnogaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymateb cadarnhaol hyd yn hyn ac os bydd y

syniad yn cael ei ddatblygu, mae'n bwysig ei fod yn dechrau bwydo i mewn i'r cynlluniau cyllidebol.

(10) Pa gynllunio tymor hir sy'n cael ei roi ar waith i gyflawni'r strategaethau gwariant ataliol yn llawn a sut rydych chi'n cynllunio ar gyfer hyn o fewn cyfnodau pan fydd cyllideb tymor byr?

61. Er bod cynllunio ariannol tymor canolig wedi'i wreiddio'n gadarn ac yn gwella mewn awdurdodau lleol, mae meddwl tymor hir ond megis cychwyn. Wedi dweud hynny, ceir arwyddion cadarnhaol bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn erfyn defnyddiol i edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Mae rhai awdurdodau yn dechrau ymgymryd â rhaglenni strategol ar draws yr awdurdod cyfan. Er enghraifft, nod 'Dyfodol Sir Fynwy' yw gosod nifer o gwestiynau am ddiben craidd yr awdurdod, ei berthynas â'i gymunedau, ei ddinasyddion a'i randdeiliaid a pha mor awyddus ydynt i weld twf economaidd a ffyniant lleol.
62. Un o amcanion rhaglenni fel hyn yw datblygu model gweithredu newydd fel y gall yr awdurdodau gyrraedd eu nodau yng nghanol rhagor o newidiadau ac ansicrwydd. Bydd pwrpas clir i'r model gweithredu newydd: creu'r gallu a'r craffter i ddatblygu atebion i rai o'r heriau mwyaf, gan sicrhau y bydd yr awdurdodau'n deall anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol cymunedau a'u bod â'r gallu i ysbarduno newid.
63. Fel Cymdeithas, rydym o'r farn bod cynllunio tymor hir yn cael ei danddatblygu yn y sector gyhoeddus Gymreig a dyma un o'r rhesymau pam rydym yn gwneud gwaith ar y cyd gyda nifer o gyrff eraill yn y sector gyhoeddus er mwyn ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (WPS) 2025.

(11) Pa dystiolaeth sylfaenol sy'n cael ei defnyddio i fesur canlyniadau ataliol?

64. Nid ydym wedi'n darbwylo bod unrhyw beth penodol yn bod ar asesiadau sylfaenol ond ceir nifer o faterion ehangach sy'n ymwneud ag amcanion a dymuniadau cynllunio a safon y gwerthuso. Bydd strategaethau ataliol yn tueddu i roi datganiadau ysgubol am gostau neu ganlyniadau cymdeithasol negyddol (neu'r ddau) y bydd yn cael eu hosgoi yn y dyfodol. Maen nhw'n dibynnu ar ryw asesiad gwrthrycol o'r hyn 'a fyddai fel arall yn digwydd' yn y dyfodol.
65. Er enghraifft, menter ataliol flaenllaw oedd rhaglen 'Teuluoedd Aflonydd' Llywodraeth y DU. Y bwriad yn y lle cyntaf oedd 'rhoi mewn trefn' 120,000 o aelwydydd ar gost o tua £400m. Cyhoeddwyd ail gylch rhaglen 'Teuluoedd Aflonydd' ym mis Mehefin 2013, a dechreuwyd ei rhoi ar waith ym mis Ebrill

2015. Roedd yn cwmpasu 400,000 o deuluoedd eraill am gost ychwanegol o £900m.

66. Erbyn i werthusiad trwyadl weld golau dydd, dangosodd y dystiolaeth nad oedd unrhyw effaith amlwg wedi bod o ran diweithdra, triwantiaeth neu drosedd.

67. Un o brif broblemau'r rhaglen oedd bod yr awdurdodau lleol yn goradrodd llwyddiannau er mwyn cael cyllid hanfodol a fyddai'n gwneud yn iawn am gwtogiadau cyllido eithafol. Cyhuddiad felly yw'r enghraifft yma o 'gael eich talu fesul y canlyniad'.

68. Problem arall yw'r amser y mae'n ei gymryd i wneud arbediadau neu welliannau sylweddol o ran canlyniadau cymdeithasol. Un o'r ychydig o astudiaethau sy'n ceisio meintoli effaith ataliol Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw'r adroddiad gan LE Wales sef *Paying for Social Care* y soniwyd amdano uchod. Yn ystod cyfnod o 24 mlynedd amcangyfrifir bod costau gofal cymdeithasol i oedolion wedi cynyddu 114% o ran y scenario sylfaenol ac o dan y scenario ataliol, maen nhw'n cynyddu 108%. Yn bendant, mae arbediadau ataliol yn werth eu cael, ond o'u cymharu â phwysau cost a demograffig, yn y tymor hwy hwyrach y byddent yn gymharol fach.

(12) Sut mae modd annog a rhannu enghreifftiau da o drawsnewid ac arloesi mewn gwasanaethau yn genedlaethol ar draws y prif asiantaethau a beth yw rôl Llywodraeth Cymru yn hynny o beth?

69. Ar hyn o bryd mae sefyliadau gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn gweithio ar y cyd i gefnogi'r gwaith o arloesi a gweddnewid mewn gwasanaethau drwy roi cyfleoedd i randdeiliaid feddu ar wybodaeth a sgiliau a rhannu profiadau a chysylltiadau. Mae'r dull cydweithredol yma wedi bod yn amhrisiadwy wrth groesbeillio syniadau ar draws meysydd a sectorau gwasanaeth ac wrth gydweithredu â blaenoriaethau neu ddeddfwriaeth genedlaethol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

70. Mae partneriaid cenedlaethol yn gweithio gyda'i gilydd drwy bartneriaeth Arfer Da Cymru i rannu gwybodaeth, nodi ymarferion a chynllunio rhaglenni gweithgarwch drwy ddatblygu astudiaethau achos ar wefan Arfer Da Cymru neu drwy achlysuron dysgu ar y cyd:

- Arfer Da Cymru: porth ar-lein untro i gyrchu arfer da a gwybodaeth ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ar hyn o bryd mae'r wefan yn dangos y ffordd i fwy na 3000 o astudiaethau achos ac adnoddau allweddol megis Catalog Cydgynhyrchu Cymru, modelau eraill o gyflawni gwasanaethau ac ati, yn ogystal â lletya rhaglenni cenedlaethol megis Gyda'n Gilydd dros Blant a

Phobl Ifanc, Rhwydwaith Gwella Parhaus Cymru Gyfan ac ati. WLGA yw'r partner cydlynu <http://www.arferda.cymru/>

- Achlysuron Dysgu Ar y Cyd mewn perthynas ag ystod o themâu megis Newid Ymddygiad, Cyd-Gomisiynu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, gwasanaethau digodol, data agored ac ati. Mae llawer o achlysuron yn cael eu trefnu neu'u cydlynu gan Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru <https://www.wao.gov.uk/cy/arfer-da> neu'n cael eu cydlynu gan WLGA drwy Arfer Da Cymru
- Mae rhwydweithiau proffesiynol a chymunedau ymarfer wrthi'n ddiwyd yn rhannu arferion a dysgu. Sefydlwyd cymunedau ymarfer at ddiben gwella parhaus ac yn ddiweddar cafodd rhwydwaith cydgynhyrchu Cymru gyllid i ehangu ei weithgarwch.
- Mae partneriaid neu raglenni eraill yng Nghymru a'r DU megis NESTA, Carnegie, Y Lab, Canolfan Gydweithredol Cymru yn gweithio hefyd gyda partneriaid yng Nghymru drwy Arfer Da Cymru i annog a chefnogi syniadau ac atebion arloesol.

71. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yng ngwaith Arfer Da Cymru, ond megis partner neu hwylusydd yn unig y dylai'r rôl yma fod. Mae ymarfer yn cael ei ddatblygu, ei berchnogi a'i rannu orau drwy gymunedau ymarfer neu drwy weithgarwch sectorol y byddai'r partneriaid cenedlaethol yn ei gydlynu yn hytrach na thrwy Lywodraeth Cymru. Mae dull sy'n cael ei arwain gan sectorau a'i seilio ar bartneriaethau yn tueddu i feithrin dull mwy organig, hyblyg ac ymatebol o ran gwaith cyfeirio ymlaen a rhannu cynnyrch arloesol o'i gymharu â mentrau Llywodraeth Cymru a gafwyd yn y gorffennol.

72. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru roi adnoddau a chefnogaeth ychwanegol at ddibenion gweddewid ac arloesi mewn gwasanaethau, a hynny drwy gyllid ar gyfer adnoddau ymarferol ar gyfer mentrau parhaus megis Arfer Da Cymru ac achlysuron dysgu ar y cyd a chyllid i gefnogi'r gwaith o weddnewid ac arloesi yn y gwasanaethau hynny a bennir yn feysydd blaenoriaeth. Galwodd Maniffesto WLGA am greu cronfa newydd o £20m a fyddai'n rhoi'r adnoddau ychwanegol i lywodraeth leol gyfuno gwasanaethau, digido'r gwaith o gyflawni lle y bo'n briodol a chwilio am fodolau cyflawni eraill megis cwmnïau cydfuddiannol, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol.

Sêl bendith gan: Y Cyng Aaron Shotton (Cyllid) a'r Cyng Huw David (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

jon.rae@wlga.gov.uk

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
Caerdydd
CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8610

Argymhellion y Comisiwn Annibynnol ar Gyllid Llywodraeth Leol

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid lleoleiddio ardrethi busnes yn gyfan gwbl, gyda llywodraeth leol yn cadw 100% o ardrethi busnes a thwf mewn ardrethi busnes. Yn ystod y flwyddyn weithredu, byddai angen rhoi mesurau ar waith - fel addasiadau i dderbyniadau grantiau neu drefniadau cronni - er mwyn sicrhau na fydd unrhyw awdurdod ar ei ennill neu ar ei golled yn ariannol o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r Comisiwn yn canmol y ffaith mai Cymru yw'r unig genedl yn y DU sydd wedi cynnal ymarfer ailbriso'r Dreth Gyngor ac yn argymhell, gan fod eiddo'n cael ei drethu yn seiliedig ar sylfaen brisio 2005 hyd yn oed yng Nghymru, fod angen cynnal ymarfer ailbriso arall, gydag ymrwymiad i wneud hyn bob pum mlynedd yn y dyfodol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i'w gwneud yn bosibl i ddinasantbarthau, neu grwpiau is-genedlaethol eraill o awdurdodau, ddiwygio bandiau a chymhareb y dreth gyngor sy'n daladwy o fand i fand.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r llywodraeth newydd ddatganoli pwerau i awdurdodau lleol drefnu disgowntiau'r dreth gyngor a phenderfynu pwy sy'n cael cymorth gyda threth gyngor.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai awdurdodau gael cyfres o bwerau caniatool y gellir eu cyflwyno'n lleol, yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Ymhlith yr enghreifftiau o bwerau a roddir, byddai cyflwyno treth dwristiaeth. Dylai fod rhesymeg dros ddewis codi'r trethi hyn, gyda'r arian a godir yn cael ei ddefnyddio yn unol â blaenoriaethau cysylltiedig, felly byddai treth dwristiaeth yn helpu gwaith datblygu/adfywio lleol a fyddai, yn ei dro, o gymorth i'r diwydiant twristiaeth.

O fis Ebrill 2017, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn dod yn gyfrifol am y trethi a ddaw yn lle Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi gyda'r cynnig i ddatganoli Treth Incwm yn rhannol erbyn 2020. Wrth i Lywodraeth y DU ddatganoli rhagor o bwerau cyllidol i Lywodraeth Cymru, dylid gweld mwy o ddatganoli i'r lefel leol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid lleihau nifer, cwmpas a graddfa grantiau penodol yn sylweddol. Mae'r Comisiwn o'r farn bod grantiau penodol yn gorfodi cynghorau i ddefnyddio adnoddau ar wasanaethau nad ydynt o reidrwydd yn flaenoriaeth leol ac maent yn her i ymreolaeth leol, defnyddwyr gwasanaethau a llywodraethu da, gyda beichiau gweinyddol ychwanegol ynghlwm wrth bob grant. Barn y Comisiwn yw y dylai grantiau penodol ond gael eu defnyddio ar gyfer blaenoriaeth genedlaethol neu swyddogaeth genedlaethol y mae'r awdurdod lleol yn asiant ar ei chyfer. Dylid cyfyngu grantiau arloesedd i hyd at dair blynedd. Dylai'r holl grantiau penodol presennol gael eu cynnwys yn yr RSG oni cheir cyfiawnhad arbennig. Mae'r Comisiwn hefyd yn argymhell y dylid adolygu unrhyw grantiau penodol eraill bob dwy flynedd er mwyn asesu a yw'r achos dros neilltuo yn ddilys o hyd neu benderfynu a ddylid terfynu'r grant neu ei gynnwys yn yr RSG.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r llywodraeth newydd ymrwymo i setliadau amlflwyddyn llawn a chllir er mwyn galluogi awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill i wneud cynlluniau hirdymor effeithiol. Byddai'r Comisiwn yn argymhell setliadau treigl bob tair blynedd fel y gellir gwneud gwaith cynllunio effeithiol ac ymgynghori'n briodol ar newidiadau gofynnol i wasanaethau.

Mae'r Comisiwn o blaid rhoi rhyddid i gynghorau bennu ffioedd a thaliadau yn lleol.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid rhoi mwy o ryddid i gynghorau o ran gwariant cyfalaf drwy ddadneilltuo grantiau cyfalaf.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai corff tebyg i Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol y DU (OBR) gael ei sefydlu yng Nghymru: corff cyngori cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i ddarparu rhagolygon economaidd annibynnol a dadansoddiadau o gyllid cyhoeddus yng Nghymru. Byddai'n llunio rhagolygon cyllidol ac economaidd ac adroddiadau ar dybiaethau trethi a gwariant Llywodraeth Cymru. Byddai'n gweithio ochr yn ochr ag OBR y DU. Gallai dyletswyddau eraill y corff gynnwys craffu ar waith prisio polisïau'r Llywodraeth ac asesu cynaliadwyedd hirdymor cyllid cyhoeddus yng Nghymru. Câi sefyllfa ariannol llywodraeth leol yng Nghymru ei hadolygu fel rhan o'r broses hon.

Mae'r Comisiwn wedi cael cryn dipyn o dystiolaeth bod fformiwla'r RSG yn seiliedig ar hen ddata a'i bod yn gymhleth ac yn anhryloyw. Felly, mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid rhewi cyfundrefn bresennol y grant a'i defnyddio o hyn ymlaen fel sail ar gyfer y setliadau treigl tair blynedd a gynigir uchod. Byddai'r newid hwn yn gwneud pethau'n fwy sefydlog a rhagweladwy dros dro, gan alluogi cynghorau i gynllunio'n effeithiol a'u helpu i gynllunio gyda sefydliadau partner. Er mwyn gwella'r system yn y tymor hwy, dylid sefydlu Comisiwn Grantiau Annibynnol i ddechrau gweithio ar fformiwla fwy effeithiol a theg i'r dyfodol. Mae'r Comisiwn hefyd o'r farn y dylid gofyn i'r Comisiwn Grantiau Annibynnol wneud sylwadau ar y ffordd y defnyddir grantiau awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru a chynnal adolygiad rheolaidd o grantiau penodol. Gan y byddai'r comisiwn grantiau yn annibynnol, byddai modd gwahanu rôl ddilys Llywodraeth Cymru wrth bennu'r cwantwm grantiau oddi wrth benderfyniadau am ddsbarthu.

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylai'r Dinas-Ranbarthau gael y pŵer i ychwanegu ardrethi busnes atodol a gyflwynir yn unswydd er mwyn helpu i dalu am brosiectau cyfalaf mawr (yn debyg i'r ffordd y cafodd cynllun Crossrail yn Llundain ei ariannu). Dylai'r pwerau hyn fod ar gael i ranbarthau eraill wrth iddynt ddatblygu.

Yn y tymor hwy, mae'r Comisiwn yn gweld rhinwedd y syniad o gadw cyfran o dreth incwm Llywodraeth Cymru yn lleol, neu gyflwyno math mwy pur o dreth incwm leol. Ond yn y byrdymor, rydym yn ymwybodol y byddai unrhyw argymhellion o'r fath yn cael eu cymhlethu gan y ffaith mai dim ond ar ddechrau'r broses o ddatganoli treth incwm i Gymru y mae Llywodraeth Cymru ei hun. O ganlyniad, argymhellwn y dylid ystyried y mater hwn unwaith eto yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Comisiwn yn amau p'un a oes gan Gymru ar hyn o bryd gyfres o fesurau perfformiad ym maes canlyniadau a all farnu perfformiad da cynghorau yn effeithiol. Felly, mae'r Comisiwn yn argymhell y dylid llunio mesurau canlyniadau cadarn er mwyn cynnig ffordd o sicrhau y gellir gweld bod camau i ddatganoli mwy o bwerau trethi yn gwella perfformiad.

ATODIAD II



Our Ref/Ein Cyf: JR/AS HD
Your Ref/Eich Cyf:
Date/Dyddiad: 6^{ed} Medi 2016
Please ask for/Gofynnwch am: Steve Thomas
Direct line/Llinell uniongyrchol: 029 2046 8610
Email/Ebost: steve.thomas@wlga.gov.uk

Mark Drakeford AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Vaughan Gethin AC

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Rebecca Evans AC

Y Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru
5^{ed} Llawr, Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Weinidogion,

Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2017/18

Hoffem ddiolch ichi am y ddeialog barhaus gydag WLGA ers ichi gymryd yr awenau yn rôl newydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Mae eich ymwneud uniongyrchol yn genedlaethol ac yn lleol gydag awdurdodau unigol wedi'i groesawu'n fawr. Dyma'r math o ddeialog sy'n ein galluogi i symud ymlaen mewn partneriaeth ac i wynebu'r heriau anodd o'n blaenau

Wrth reswm, wedi datganiad Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar 18^{fed} Hydref a datganiad Hydref y Canghellor i'w ddilyn ym mis Tachwedd/Rhagfyr, mae'r cynghorau bellach yn canolbwyntio'n llwyr ar gyflawni Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig. Nid ein bwriad yw adrodd o'r newydd y dadleuon a wnaethom ym mhapur WLGA i'r Is-Grŵp Cyllid ond rydym o'r farn ei bod yn bwysig pwysleisio rhai pwyntiau sylfaenol ichi eu hystyried.

Steve Thomas CBE
Chief Executive

Prif Weithredwr

Welsh Local Government
Association

Local Government House

Drake Walk

CARDIFF CF10 4LG

Tel: 029 2046 8600

Cymdeithas Llywodraeth
Leol Cymru

Tŷ Llywodraeth Leol

Rhodfa Drake

CAERDYDD CF10 4LG

Ffôn: 029 2046 8600

www.wlga.gov.uk

Rydym yn parhau i gredu'n fawr bod rhaid i fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fod yn flaenoriaeth graidd i Lywodraeth Cymru, yn unol ag amcanion sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac o ran polisi cyllidebol cadarn. Gwnaethoch chi gydnabod hyn ac ymateb yn gadarnhaol iddo pan roeddech yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Enghraifft dda o hyn yw Lloegr. Mae toriadau llym iawn mewn gofal cymdeithasol yr ochr draw i Glawdd Offa wedi arwain at argyfwng sy'n bygwth y gwaith o gyflawni gofal eilaidd. Bellach mae'r cynghorau yn gwario 10 y cant yn llai ar ofal cymdeithasol i oedolion nag yn 2009-10. Mae'r ffigyrau'n dangos nad yw miliwn o bobl o leiaf yn cael y gofal sylfaenol sydd ei angen arnyn nhw. Y canlyniad yw i filiwn o ddiwrnodau ysbyty gael eu colli oherwydd oedi mewn rhyddhau o'r ysbyty yn 2015, gan gostio £2.4bn i'r GIG. Amcangyfrifir y gallai'r arian y bydd y GIG yn ei wario ar ddiwrnodau gwely ychwanegol oherwydd bod pobl yn aros am ofal yn y cartref ariannu 5.2 miliwn o oriau o ofal yn y cartref.

Rydym yn nodi â diddordeb (a pheth eironi) farn yr AS Ceidwadol, Mr Dan Poulter sydd wedi cydnabod "ar wardiau ysbyty rwy'n gweld pobl sy'n feddygol abl i fynd adref ond sy'n gorfod aros ymlaen yn yr ysbyty oherwydd anawsterau wrth drefnu pecyn eu gofal cymdeithasol neu oherwydd diffyg tai priodol. Nid oes modd cyflawni gofal iechyd da heb ofal cymdeithasol a ariennir yn iawn".

Rydym yn ceisio eich cefnogaeth barhaol i gadw'r buddoddiad mewn gwasanaethau ataliol ac i osgoi'r problemau mae ein cydweithwyr a defnyddiwr gwasanaethau yn Lloegr wedi'u hwynebu. Mae'r pwysau ar ofal cymdeithasol yn ddirfawr ac mae rhai o'r rhain yn cael eu nodi'n glir yn yr astudiaeth gan LE Wales a gomisiynodd y Llywodraeth flaenorol. Mae cymryd effaith demograffeg a chyfuno hyn â phwysau nad oes modd eu hosgoi yn y gyflogres megis y Cyflog Byw Cenedlaethol yn ychwanegu ychydig dros £90m i gyllidebau presennol y flwyddyn nesaf. Dyma ychydig yn llai na hanner y pwysau cyffredinol o £189m y bydd llywodraeth leol yn eu hwynebu yn ystod 2017-18.

Enghraifft - Cyflog Byw

Mewn cyngor canolig ei faint megis Conwy yn 2017/18 amcangyfrifir y byddai cynnydd o 45 ceiniog yn y tâl fesul awr (o £7.20 i £7.65) yn cynyddu costau fel a ganlyn:

| | |
|---------------------|--------------|
| Residential/Nursing | £0.6m |
| Domiciliary | £0.3m |
| Supported Living | £0.3m |
| TOTAL | £1.2m |

Erbyn 2020 bydd y cynnydd i £9.30 fesul awr yn golygu y bydd costau Conwy yn £5.6m yn fwy na'r hyn ydynt ar hyn o bryd.

O ran y materion sy'n ymwneud â gwasanaethau, mae nifer o awdurdodau wedi rhoi gwybod am gynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dilyn cynnydd mewn atgyfeiriadau a phenderfyniadau gan lysoedd. Hefyd, mae pob awdurdod yn cydnabod natur fregus rhannau

mawr o sector gofal preswyl/nyrsio. Dagrau'r sefyllfa yw, oherwydd ffigyrau megis y rheiny y tynnwyd sylw atynt, mae opsiwn ceisio ymgodymu â'r sefyllfa gan dalu'r costau hyn drwy gyllidebau sy'n bodoli eisoes heb fod yn realistig. **Yn y bôn, yr ateb yw codiad sylweddol yn y grant cynnal refeniw a derbyn yr egwyddor, o ystyried pwysau megis y Cyflog Byw, fod rhaid i'r dull y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio ar gyfer gweithlu'r GIG yng Nghymru gael ei ddefnyddio'r un fath yn achos y gweithlu ar gyflogau isel ym maes gofal cymdeithasol.**

Yn olaf, er ein bod yn ymwybodol bod y llythyr yma yn pwysleisio maes gofal cymdeithasol unwaith eto, mae'n amlwg bod gwasanaethau eraill megis tai, iechyd amgylcheddol, gwasanaethau ieuencid, hamdden a thrafnidiaeth oll yn chwarae rôl sylweddol o ran atal. Dyma'r un gwasanaethau 'heb eu diogelu' sydd wedi wynebu toriadau'r blynyddoedd diwethaf hyn. Byddai dull cyfannol o greu cyllidebau megis yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cydnabod bod buddsoddi yn y gwasanaethau hyn yn hynod o gyson ag egwyddor "cymryd camau i geisio atal problemau rhag iddyn nhw fynd yn waeth - neu eu stopio rhag digwydd yn y lle cyntaf".

Rydym yn cydnabod yn llwyr raddfa'r heriau sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth ariannu Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rydym wedi bod yn barod ein cefnogaeth i'r buddsoddiad diweddar, y mwyaf o'i fath, yn y GIG ac rydym yn hynod o ymwybodol o'r heriau y mae'n eu hwynebu. Fodd bynnag, fel y dengys y sefyllfa yn Lloegr, os bydd mwy o adnoddau yn cael eu sianelu i un rhan o'r system heb newid unrhyw beth arall, yna mae'n debygol o arwain at argyfwng sylweddol.


Diolch yn fawr am ystyried y materion yn y llythyr yma sydd wedi'i ysgrifennu ar ran ein cydweithwyr yn y 22 o gynghorau.

Yn gywir,



Y Cynghorydd Aaron Shotton

Llefarydd WLGA dros Gyllid ac Adnoddau



Y Cynghorydd Huw David

Llefarydd WLGA dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol